


**CHWEFROR 2026**

## Darlleniad

**Eseia 35:1-7**
**& Luc 7:18-23**

*"Ewch yn ôl a dweud wrth Ioan beth dych chi wedi'i weld a'i glywed: Mae pobl ddall yn cael gweld, pobl gloff yn cerdded, pobl sy'n dioddef o'r gwahanglwyf yn cael eu hiachau, pobl fyddar yn clywed, a phobl sydd wedi marw yn dod yn ôl yn fyw. Ac mae'r newyddion da yn cael ei gyhoeddi i bobl dlawd! Ac un peth arall: Mae bendith fawr i bwy bynnag sydd ddim yn colli hyder ynddo i."*
*(Luc 7:22-23 BNET)*

## Myfyrdod

Llawenhawn y mis hwn yn yr Arglwydd Iesu... **Iachawr, Gwaredwr ac Adferwr.** Ef yw gobaith yr oesoedd - gorffennol, presennol a dyfodol. Ef yw'r gobaith yr oedd proffwydi'r Hen Destament yn ei bwyntio ato Fe. Ysgrifennwyd Eseia 35 yn yr 8fed canrif CC, pan oedd pobl teyrnas Jwda yn boenus ymwybodol o fygythiad byddinoedd Assyria, yn ogystal â rhybuddion Eseia ynglŷn â chanlyniadau difrifol eu pechod. Yng nghanol hynny, mae Eseia yn pwyntio at **obaith dyfodiad Teyrnas Dduw**. Ganrifoedd yn ddiweddarach, fe wnaeth pobl Israel gael rhagflas o gyflawnder y Deyrnas honno ym mherson yr **Arglwydd Iesu Grist** (Luc 7:22-23). Fe ddaeth **i adfer, i iacháu, i atgyfodi, ac i ryddhau**. Y newyddion da yw hyn: mae'r Arglwydd Iesu yn parhau i wneud yr un pethau heddiw! Tybed a oes angen i ni edifarhau am adegau pan ydym ni wedi "colli hyder" yn Ei waith? (Luc 7:23) Oes angen i ni ofyn i'r Arglwydd **agor ein llygaid** unwaith eto i weld Ei Deyrnas ar waith o'n cwmpas? Wrth i ni wneud hynny, ble y mae E'n ein gwahodd ni i weddïo: "Deled dy Deyrnas" yn ein cyd-destun ni?

## Pwyntiau Gweddi



**Arwyddion o Dwf**

- Diolchwn am **gynnydd yn y nifer o blant a phobl ifanc, a bedyddiadau** y mae nifer o eglwysi UBC wedi eu gweld dros gyfnod 2025-26. Diolchwn bod y rhain i gyd yn gallu bod yn arwyddion o Deyrnas yr Arglwydd Iesu ar waith!
- Gweddïwn am i'r Ysbryd Glân weithio yn rymus yn ein cymunedau eleni. Gweddïwn y bydd yn nerthu ein heglwysi **yn eu cenhadaeth**, ac y bydd nifer **yn rhoi eu ffydd** yn yr Arglwydd Iesu o'r newydd yn ein cymunedau eleni.

**CIOs Rhanbarthol Newydd**

- Rhown ddiolch am waith pwysig sefydlu **cyrff elusennol** i gefnogi'r Cymanfaoedd a'u cenhadaeth ar draws Cymru. Gweddïwn y bydd y broses yn **parhau yn llyfn** yn ystod 2026, ac y bydd pobl yn cael eu galw i helpu yn y gwaith.

## Gweddi'r Mis

*Arglwydd Iesu,*
*Down atat Ti y mis hwn yn llawenhau ynot Ti fel ein Gwaredwr. Diolch mai Ti yw gobaith yr oesoedd, a'n* **gobaith ni yng Nghymru heddiw** *(Mat 12:21).*

*Diolch am i Ti ddod i agor llygaid y deillion, atgyfodi'r meirw, ac* **chyhoeddi newyddion da!** *Diolch am i Ti wneud hynny pan oeddet Ti ar y ddaear - a diolch dy fod Ti yn parhau i wneud hynny heddiw.*

*Ynot Ti y mae* **adnewyddiad pob peth.** *Arglwydd, a wnei Di ein hadnewyddu ni?*

*Maddeua i ni pan ydym weithiau wedi "colli hyder" ynot Ti (Luc 7:23). A wnei Di lenwi ein calonnau unwaith eto gyda hyfrydwch Dy berson?*

*Arglwydd,* **deled dy Deyrnas** *- yn ein calonnau, yn ein plith fel teulu Bedyddiedig, ac yn ein cenedl heddiw.*

Yn enw nerthol Iesu, Amen.

## Mwy

*o bwyntiau gweddi wythnosol a rhanbarthol penodol ar ein calendr gweddi + ar* ***ubc.cymru***